# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 8 Tachwedd 2004

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch cau Swyddfa Budd-daliadau Stryd y Dollborth, Aberystwyth. (WAQ39253)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch dyfodol Cae Ras Clwb Pêl-droed Wrecsam. (WAQ39248) **W**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut y bydd unrhyw golli swyddi yn y gwasanaeth sifil yng Nghymru, y cyfeiriwyd ato yng nghyhoeddiad Gordon Brown fis Gorffennaf diwethaf, yn effeithio ar strategaeth economaidd eich llywodraeth. (WAQ39254)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** All y Gweinidog gadarnhau y bydd yr oedi o ganlyniad i waith amgylcheddol yn arwain at oedi'r gwaith o wella ffordd yr A487 yng Nglandyfi (Aberystwyth i Fachynlleth) ac na fydd y rhan honno o'r ffordd yn cael ei gwella bellach tan 2012. (WAQ39255)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau neu ohebiaeth sydd wedi bod rhyngddo a Chynghrair Twristiaeth Cymru yn ystod y chwe mis diwethaf. (WAQ39256)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Chynghrair Twristiaeth Cymru ynghylch y ffaith y bydd y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad y mae'n gyfrifol amdanynt yn dod yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ39257)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ynghylch y cynigwyr sy'n cael eu ffafrio ar gyfer prosiect 'Watchkeeper' y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r defnydd o faes awyr Llanbedr (Gwynedd) yn y dyfodol, o ran y cyfleoedd ar gyfer swyddi yn y maes awyr yn y dyfodol yn arbennig. (WAQ39269)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi’u cymryd a pha gamau y mae’n bwriadu eu cymryd i hyrwyddo beicio mynydd yng Nghymru a datblygiad llwybrau beiciau mynydd. (WAQ39244)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o geidwaid beiciau mynydd y mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru neu’r Fenter Goedwigaeth wedi’u cyflogi dros bob un o’r pum mlynedd diwethaf a pha gynlluniau sydd ar y gweill i gynyddu neu ostwng y nifer hon yn y dyfodol. (WAQ39245)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o staff llwybrau beiciau mynydd y mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru neu’r Fenter Goedwigaeth wedi’u cyflogi dros bob un o’r pum mlynedd diwethaf a pha gynlluniau sydd ar y gweill i gynyddu neu ostwng y nifer hon yn y dyfodol. (WAQ39246)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gefnogaeth ariannol y mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru neu’r Fenter Goedwigaeth wedi’i rhoi i hyrwyddo datblygiad llwybrau beiciau mynydd yng Nghymru yn ystod pob un o’r pum mlynedd diwethaf a pha gynlluniau sydd ar y gweill i roi cefnogaeth ariannol debyg yn y dyfodol. (WAQ39247)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canllawiau a roddodd Adran Gynllunio Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gyngor Sir Powys ynghylch y penderfyniad dilynol i wrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu ramp i bobl anabl y tu allan i fanc y National Westminster ym Machynlleth. (WAQ39252)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaeth unrhyw swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru fynychu unrhyw gyfarfodydd safle ynghylch y cais am ganiatâd cynllunio i adeiladu ramp i bobl anabl y tu allan i fanc y National Westminster ym Machynlleth. (WAQ39266)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y gronfa wrth gefn a ddangosir yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2005-8 ar gyfer canlyniad Comisiwn Rees. (WAQ39241)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y gronfa wrth gefn a ddangosir yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2005-8 ar gyfer cynllun lleddfu dros dro y Dreth Gyngor. (WAQ39242)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a wnaed

unrhyw ddarpariaeth yn y gronfa wrth gefn a ddangosir yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2005-8 ar gyfer ehangu’r rhaglen brecwastau am ddim mewn ysgolion. (WAQ39243)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A fydd cyllid ychwanegol ar gael yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i ddiogelu gwasanaethau meddygon teulu eraill, pan gaiff y contract meddygon teulu newydd ei weithredu, ac a fydd gwledigrwydd yn cael ei ystyried pan gaiff y cyllid hwn ei ddyrannu. (WAQ39250)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut y bydd Ysbyty Tywyn yn cael ei gynnwys yn y ddarpariaeth y Tu Allan i Oriau Arferol yn ardal De Meirionnydd. (WAQ39251)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru sydd wedi datblygu strategaethau ystadau gofal sylfaenol a mynediad addas i gyfleusterau sy'n hyrwyddo amgylchedd gofal i gleifion yng nghyswllt Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Arferol, a pha Fyrddau Iechyd Lleol yw'r rhain. (WAQ39258)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth fydd y gost o gael dau feddyg yn Ysbyty Dolgellau gyda cheir sydd wedi'u haddasu'n arbennig (satnav, etc) a gyrwyr ar gyfer y cerbydau hynny yng nghyswllt darpariaeth y Tu Allan i Oriau Arferol. (WAQ39259)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pwy sydd â hawl i ddefnyddio deintyddion cymuned yn Nolgellau. (WAQ39260)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yng nghyswllt gwasanaeth meddygon teulu y Tu Allan i Oriau Arferol yn Ne Meirionnydd, sut y bydd y darparwr yn cael ei fonitro o ran safon. (WAQ39261)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut y bydd is-adran Iechyd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi'r cymorth priodol i Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd ar gyfer y ddarpariaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Arferol yn ardal De Meirionydd. (WAQ39262)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ag Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru yng nghyswllt y ddarpariaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Arferol yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ39263)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau a gafodd ag Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru ynghylch y seilwaith Technoleg Gwybodaeth a derbyniad radio a ffonau symudol gwael yng nghyswllt gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Arferol yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ39264)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth fydd y gost o gael un meddyg yn

Ysbyty Tywyn yng nghyswllt y ddarpariaeth y Tu Allan i Oriau Arferol. (WAQ39265)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd yng nghyswllt y posibilrwydd o ddefnyddio Ysbyty Tywyn fel lleoliad ar gyfer gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Arferol. (WAQ39271)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa wybodaeth sydd gan y Gweinidog mewn perthynas ag unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd rhwng Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd a'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans yng nghyswllt darparu cludiant i gleifion nad ydynt mewn argyfwng fel rhan o wasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Arferol. (WAQ39270)

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pryd y cafodd gyfarfod â'r BMA ddiwethaf i drafod ysbytai cymuned. (WAQ39267)

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i ddweud a yw'r BMA wedi ymuno â'r fframwaith newydd ar gyfer Ysbytai Cymuned. (WAQ39268)

**John Marek (Wrecsam):** Yn dilyn ei hateb i WAQ38815, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r cyngor a roddodd i Ymddiriedolaethau Iechyd pan gyhoeddwyd cyfradd achosion MRSA. (WAQ39249)